BookTrust Cymru
Ysgogi plant i ddarllen
Getting children reading

Pori Drwy Stori

# Her Rigymau Pori Drwy Stori
# Pecyn Cymorth i Athrawon








Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

booktrust.org.uk/poridrwystori

# Rigymau Pori Drwy Stori
# Pecyn Cymorth i Athrawon




**Bwriedir yr Her Rigymu i'w defnyddio yn nhymor yr hydref gyda'ch dosbarth Derbyn newydd. Rydyn ni wedi gwahanu'r rhigymau a'r caneuon dan bum thema wythnosol – er y gallwch chi dreulio mwy nag wythnos ar bob thema os ydych chi eisiau gwneud hynny.**

Rydyn ni wedi dewis y rhigymau a'r caneuon yn ofalus fel eu bod nhw'n cynnig heriau difyr, diddorol a gwahanol i blant yn y dosbarth Derbyn. Bob wythnos, rydyn ni hefyd wedi cynnwys rhigymau Cymraeg a Saesneg mwy syml a mwy heriol i ddarparu ar gyfer gwahanol alluoedd ieithyddol.

**Yn y Pecyn Cymorth hwn, ceir:**


Gwybodaeth am adnoddau'r Her Rigymu a sut i'w defnyddio ........ 3
Cyngor ar sut i wneud yn fawr o'r Her Rigymu ........ 4
Gwybodaeth am ba rigymau a chaneuon sy'n bwysig i blant ........ 6
Syniadau am weithgareddau ar gyfer rhigymau bob wythnos, gan gynnwys cysylltiadau â'r Cyfnod Sylfaen ........ 10
Yr holl rigymau a chaneuon wedi'u hysgrifennu'n llawn, gan gynnwys rhai penillion ychwanegol ........ 20


BookTrust Cymru sy'n datblygu ac yn darparu rhaglen Pori Drwy Stori, ac mae Llywodraeth Cymru'n ei hariannu. Yn BookTrust Cymru, rydyn ni o'r farn bod rhannu rhigymau'n gwneud gwahaniaeth o fisoedd cyntaf oll bywyd. Mae ein pecynnau **Dechrau Da Babi** a **Dechrau Da Blynyddoedd Cynnar** yn rhad ac am ddim i bob plentyn yng Nghymru ac yn cynnwys syniadau ac adnoddau i helpu i rannu rhigymau. Mae ein rhaglen **Pori Drwy Stori Meithrin** hefyd yn rhad ac am ddim ac mae'n cynnwys adnoddau difyr i helpu plant i fwynhau rhannu rhigymau a chaneuon.

I gael gwybod mwy ewch i **booktrust.org.uk/cymru**

Cofiwch fod **llyfrgelloedd lleol** yn aml yn rhedeg sesiynau Amser Rhigwm am ddim i blant hefyd!



**Nawr, gadewch i'n hanturiaethwyr Pori Drwy Stori eich tywys chi a'ch dosbarth ar siwrnai trwy rigymau a chaneuon!**




# Her Rigymu Pori Drwy Stori: Canllaw'r Athro

## Yr adnoddau

Yn y blwch hwn mae eich adnoddau Her Rigymu Pori Drwy Stori **newydd**.

Gellir defnyddio'r rhain drwy gydol **tymor yr hydref** ac maen nhw wedi cael eu cynllunio ar gyfer eu defnyddio gan eich plant **Derbyn**.




### Llyfrynnau Her Rigymu

I'r plant fynd adref gyda nhw. Mae'r llyfrynnau hyn yn cynnwys gwybodaeth i rieni a gofalwyr am yr Her Rigymu, ynghyd â rhigymau a chaneuon y gall y plant eu dysgu. Un i bob plentyn.




### Poster Taith yr Her Rigymu

I'w ddefnyddio yn eich dosbarth i gofnodi'r rhigymau rydych chi'n eu dysgu bob wythnos. Un i bob dosbarth.




### Tystysgrifau'r Her Rigymu

I'w rhoi i bob plentyn ar ddiwedd yr Her Rigymu i ddathlu'i lwyddiant. Un i bob plentyn.

## Beth fydd angen i mi ei wneud?

I'ch helpu i wneud yn fawr o'r Her Rigymu, rydym ni'n argymell:

- Cyn i chi ddechrau, penderfynwch ar ba rigwm neu gân y byddwch chi'n canolbwyntio bob wythnos. Mae thema bob wythnos sy'n cynnwys rhigymau a chaneuon syml a mwy heriol – ac wrth gwrs mae croeso i chi ddewis mwy nag un!
- Ysgrifennwch enw pob rhigwm neu gân yn llyfryn y plant ar ddechrau'r Her Rigymu, neu gofynnwch i'r plant ddod â'u llyfrynnau'n ôl bob wythnos.

### Bob wythnos:

- Defnyddiwch y poster Taith y Dosbarth i atgoffa'r plant o ba gân neu rigwm yr ydych chi'n ei ddysgu – ac i gofio pob rhigwm yr ydych chi wedi'u dysgu eisoes!
- Mwynhewch ganu rhigwm neu gân yr wythnos yn eich dosbarth.
- Gwnewch yn siŵr fod rhieni a gofalwyr yn gwybod pa gân neu rigwm rydych chi'n ei dysgu. Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol i'w hatgoffa'n rheolaidd.

### Ar ddiwedd yr Her Rigymu

- Dathlwch lwyddiannau eich dosbarth! Rhowch y tystysgrifau i'r plant!
- Beth am wahodd rhieni a gofalwyr i ymuno â chi ar gyfer dathliad Her Rigymu?

### Yr Her Rigymu ar-lein

Ewch i wefan Pori Drwy Stori i ddod o hyd i:

- Ffilmiau hwyliog o bob un o rigymau a chaneuon yr Her Rigymu
- Pecyn Cymorth i Athrawon yn llawn o syniadau a gweithgareddau i wneud yn fawr o'r Her Rigymu.
- Yr holl adnoddau ar gyfer yr Her Rigymu ar gael i'w lawrlwytho.



Darluniau gan Matt Joyce

# Gwneud yn fawr o Her Rigymu Pori Drwy Stori



## Datblygu siwrnai trwy rigymau a chaneuon

**Mae'r Her Rigymu wedi'i seilio ar y syniad o siwrnai trwy rigymau a chaneuon, gan ddilyn pedwar anturiaethwr Pori Drwy Stori.**

### Gallwch chi wneud yn fawr o'r syniad hwn o siwrnai trwy:

- Ysgrifennu llythyr oddi wrth anturiaethwyr Pori Drwy Stori at eich dosbarth ar ddechrau'r Her Rigymu, gan wahodd pawb i ymuno â nhw ar siwrnai trwy rigymau a chaneuon!
- Creu 'helfa' trwy'r ystafell ddosbarth neu'r ysgol i ddod o hyd i adnoddau'r Her Rigymu. Fe fydd angen i'r plant fod yn 'anturiaethwyr' i ddod o hyd i'w llyfrynnau!
- Sefydlu cornel chwarae rôl yr Her Rigymu yn yr ystafell ddosbarth, gyda gwarbaciau, mapiau ac ati. Gall y plant esgus mai y nhw ydy anturiaethwyr Pori Drwy Stori. Gallech chi hefyd ddefnyddio'r ardal hon i gyflwyno'r rhigymau a'r caneuon wythnosol.
- Cuddio lluniau o anturiaethwyr Pori Drwy Stori i'ch dosbarth ddod o hyd iddyn nhw mewn ardaloedd sy'n cyfateb i'ch thema rigymu wythnosol e.e. cuddio llun o anturiaethwr yn yr ardal ddŵr ar gyfer 'A Sailor Went to Sea'.
- Creu  pasbort Her Rigymu Pori Drwy Stori. Gallech chi roi 'stamp' ar hwn wrth i'r plant ddysgu'r gwahanol rigymau.

## Helpu plant i ddysgu'r rhigymau a'r caneuon

**Bydd y plant yn dysgu'r rhigymau a'r caneuon ar wahanol gyflymderau. Bydd rhai ohonyn nhw'n dysgu rhigwm cyfan yn hawdd ac i eraill bydd dysgu rhan o'r rhigwm yn gyflawniad. Mae'r Her Rigymu wedi'i chynllunio i gynnig rhywbeth i bob plentyn.**

### Gallwch chi helpu'r plant i ddysgu'r rhigymau a'r caneuon trwy:

- Wneud yn siŵr bod y plant yn gallu'ch gweld chi a'ch wyneb yn glir pan maen nhw'n dysgu'r rhigymau – mae'n eu helpu nhw os ydyn nhw'n gallu gweld eich ceg yn symud, ac yn gweld unrhyw ystumiau'n glir iawn.
- Defnyddio fideos Her Rigymu Pori Drwy Stori yn: booktrust.org.uk/poridrwystori-the-rhyme-challenge-videos
- Dechrau'n araf a chyflymu'n raddol wrth i'r plant ddod yn fwy cyfarwydd â'r rhigymau a'r caneuon. Pan fyddan nhw'n gwybod y rhigymau'n dda, ceisiwch adael gair allan a gofyn iddyn nhw ei gwblhau, neu ychwanegu ystum.
- Oedi yn ystod y rhigwm, gan annog y plant i lenwi'r geiriau sydd wedi'u hepgor.
- Defnyddio offerynnau cerdd a symudiadau fel stampio, clapio a martsio i bwysleisio'r rhythmau a'r patrymau; mae gofyn i'r plant glapio neu stampio mewn man penodol hefyd yn annog sgiliau gwrando.
- Newid cryfder eich llais mewn rhannau penodol o'r rhigymau neu'r caneuon i gadw sylw'r plant.
- Defnyddio'r rhigymau a'r caneuon mewn gwahanol wersi i greu cysylltiadau â themâu.
- Rhannu'r rhigymau a'r caneuon ar adegau gwahanol mewn diwrnod, neu wrth ichi wneud rhai gweithgareddau arferol penodol, fel ciwio amser cinio.



## Cael rhieni a gofalwyr i ymddiddori yn Her Rigymu Pori Drwy Stori

**Mae Pori Drwy Stori wedi'i gynllunio i helpu i feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref ac i gefnogi rhieni a gofalwyr i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plentyn.**

**Mae'r syniadau hyn yn gallu helpu i gael rhieni a gofalwyr i ymddiddori yn yr Her Rigymu:**

- Cyn anfon yr adnoddau adref, gallech chi gynnal sesiwn ar gyfer rheini a gofalwyr i'w cyflwyno i'r Her Rigymu a rhoi'r adnoddau iddyn nhw bryd hynny.
- Anfon llythyr, gwahoddiad, taflen, poster, post yn y cyfryngau cymdeithasol neu neges destun i roi gwybod i rieni a gofalwyr beth i'w ddisgwyl cyn anfon y Llyfryn Rhigymau adref. Po fwyaf y maen nhw'n ei wybod am yr adnoddau, beth i'w wneud a'r gwahaniaeth y bydd yn ei wneud, mwyaf tebygol y maen nhw o chwarae rhan!
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu'r hyn rydych chi'n ei wneud bob wythnos â'r rhieni a'r gofalwyr. Bob wythnos, wrth i'ch dosbarth adrodd y rhigymau wythnosol gyda'i gilydd, gallech chi ddathlu symud ar draws poster siwrnai'r Her Rigymu. Gallech chi rannu hyn trwy Twitter, Instagram ac ati.
- Defnyddio a rhannu fideos yr Her Rigymu i gynyddu'r cyffro ynglŷn â dysgu'r rhigymau a'r caneuon. Mae cyffro plant yn aml yn gallu dylanwadu ar eu teuluoedd!
- Rhoi tawelwch meddwl i rieni a gofalwyr ei bod hi'n iawn os ydy plant yn cymryd ychydig mwy o amser i ddysgu'r rhigymau a'r caneuon, ac y bydd dysgu rhan o rigwm yn gyflawniad mawr i rai plant.
- Atgoffa'r rhieni a'r gofalwyr ei bod hi'n bosibl rhannu rhigymau a chaneuon unrhyw le, a bod hyn yn hawdd i'w wneud.
- Gwneud yn siŵr bod y rhieni a'r gofalwyr yn gwybod pam mae rhigymau a chaneuon mor bwysig i blant – gallech chi ddefnyddio'r awgrymiadau yn Llyfryn yr Her Rigymu ac yn y Pecyn Cymorth hwn.

## Defnyddio'r Her Rigymu i gefnogi'r Siarter Iaith

**Mae llawer o ysgolion yn defnyddio Pori Drwy Stori i gefnogi'r Siarter Iaith. Mae'r Her Rigymu'n ffordd wych i wneud rhannu rhigymau a chaneuon Cymraeg yn rhan o drefn bob dydd eich ysgol.**

**Mae hefyd yn cynnig llawer o gyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg:**

- Rhigymau rhifau: gallech chi ymarfer cyfrif yn y Gymraeg ac edrych ar liwiau.
- Hwiangerddi: gallech chi wneud cysylltiadau â geirfa'r tywydd, amser a threfnau bob dydd.
- Clymau tafod: gallech chi ganolbwyntio ar synau mwy heriol yn y Gymraeg; cael gwybod mwy am yr Wyddfa a rhannau eraill o Gymru.
- Rhigymau actol: gallech chi ddysgu am rannau o'r corff yn y Gymraeg.
- Cerddi difyr: gallech chi ddefnyddio ymadroddion syml i siarad am hoff bethau a chas bethau, fel 'dw i'n hoffi...'; siarad am fwyd a'r tymhorau; defnyddio geiriau i ddisgrifio teimladau, fel 'hapus', 'trist'.



# Beth ydy buddion rhannu rhigymau a chaneuon?

**Mae rhannu rhigymau a chaneuon yn weithgaredd hynod bwysig i blant. Mae hefyd yn gallu cefnogi eu sgiliau iaith a chyfathrebu, eu helpu nhw i ddod yn wrandawyr da a meithrin eu hyder i ymuno â phethau. Mae rhigymau a chaneuon hefyd yn creu cyfleoedd gwych i wneud ystumiau a symud, sy'n gallu cefnogi datblygiad corfforol.**

## Mae rhigymau a chaneuon ...



... yn **ffynhonnell iaith gyfoethog i blant**. Mae angen i blant glywed digonedd o iaith i ddod yn gyfathrebwyr da. Mae rhigymau a chaneuon yn pwysleisio synau a phatrymau synau. Mae ymchwil wedi dangos bod yna gysylltiadau rhwng datblygiad darllen plant yn y pen draw a'u gallu i adnabod, nodi a thrin synau sy'n odli.[1]

... yn gallu **cyflwyno plant i eirfa ac ymadroddion newydd**. Mae rhannu rhigymau a chaneuon dro ar ôl tro yn helpu plant i feistroli'r iaith y maen nhw'n ei chlywed – boed yn iaith Gymraeg neu Saesneg.

... yn gallu darparu **cyfleoedd i chwarae â geiriau a chael hwyl ag iaith**. Maen nhw'n cynnwys odlau, cyflythreniad, chwarae â synau a nodweddion iaith eraill. Mae rhigymau'n creu cyfleoedd syml i chwarae ag iaith, er enghraifft trwy newid y geiriau sy'n odli.



1 Melby-Lervåg, M., Lyster, S.-A.H. & Hulme, C. (2012) 'Phonological skills and their role in learning to read: A meta-analytic review', *Psychological Bulletin*, 138(2), 322–52. Gwelwch: http://doi.org/10.1037/a0026744

... yn gallu **helpu plant i archwilio rhythm**. Mae rhythm yn gallu helpu i dynnu sylw at wahanol eiriau ac ymadroddion. Mae clapio neu stampio rhythm yn gallu helpu plant i deimlo'r curiad, ac mae'n gallu helpu i ddatblygu sgiliau gwrando. Mae rhythm hefyd yn ein helpu ni i glywed y seibiau mewn iaith. Mae hyn yn sail ddefnyddiol ar gyfer dysgu darllen, ac mae'n bosibl ei fod yn helpu plant i nodi lle mae geiriau'n dechrau a gorffen, lle mae brawddegau'n dod i ben a ffonemau.



... yn gallu **helpu i ddatblygu hyder plant**. Mae dysgu rhigwm yn wir gyflawniad i rai plant. Mae ymuno â phethau mewn grŵp yn gallu helpu plant i ddysgu sut i gydweithio, ac i deimlo'n fwy hyderus – os yw'r rhigwm cyfan yn anodd iddyn nhw, gallan nhw ymuno â rhan ohono wrth iddyn nhw ddysgu. Mae rhannu rhigymau a chaneuon hefyd yn ffordd o ddatblygu sgiliau perfformio cynnar.



... yn gallu **helpu plant i ddatblygu sgiliau gwrando a chanolbwyntio** – mae'n fwy na dim ond siarad! Mae angen i blant wrando i ddysgu'r rhigymau a'r caneuon, ac mae llawer o'r rhain yn creu cyfleoedd i ddatblygu sylw, er enghraifft aros am yr adeg iawn i wneud ystum penodol.



Cofiwch, **mae rhannu rhigymau a chaneuon yn hwyl, ac yn gyfle gwych i ryngweithio** rhwng plant, a rhwng plant ac oedolion.

# Rhigymau a chaneuon yn y Cyfnod Sylfaen



**Mae rhannu rhigymau a chaneuon yn rhan allweddol o Faes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd yn gallu cefnogi dysgu ar draws y Cyfnod Sylfaen, er enghraifft datblygu sgiliau rhifedd â rhigymau rhifau, cefnogi sgiliau symud a datblygiad corfforol, a chyfrannu at lesiant.**



Yn y dosbarth Derbyn, gall rhigymau a chaneuon fod o fudd penodol i blant o ran **gorchmynion gweithredol mwy cymhleth** (gwelwch Wythnos 4: Rhigymau Actol), **straeon a naratifau** (gwelwch Wythnos 2: Hwiangerddi), **cyfleoedd i ychwanegu offerynnau taro a cherddoriaeth** (Wythnosau 1 i 4!) a **pharau odli** (gwelwch Wythnos 5: Cerddi Difyr).

Mae'r tabl hwn yn rhoi rhai enghreifftiau o sut y mae Her Rigymu Pori Drwy Stori'n gallu cefnogi deilliannau Llafaredd y Cyfnod Sylfaen.

| Sgiliau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen | FfLlRh/Maes Dysgu |
|---|---|
| **Siarad yn glywadwy** | FfLlRh |
| **Dangos ymwybyddiaeth o gyflythreniad ac odl:** mae gan y rhigymau a chaneuon hyn rai enghreifftiau gwych, fel 'sausages sizzling', 'pedoli, pedoli, pe-dinc', 'hoppy, croppy, poppy'. | Maes Dysgu |
| **Sylwi ar rhythm mewn geiriau ar lafar a pharhau gyda rhes o odlau:** clapio neu stampio i guriad y rhigymau neu ar gyfer geiriau â phwyslais, fel 'Hicori Dicori **Doc**'; ydy'r plant yn gallu estyn neu ychwanegu at rai o'r odlau?, er enghraifft 'glas', 'ras', '**blas**' neu 'head', 'bed', '**red**'. | Maes Dysgu |
| **Neilltuo a nodi synau cychwynnol mewn gair llafar:** mae'r cyflythreniad yn rhai o'n clymau tafod yn gallu helpu'n fawr yn hyn o beth! | Maes Dysgu |
| **Dilyn geiriau/gorchmynion gweithredol:** ydy'r plant yn gallu dilyn y gorchmynion gweithredol, a'ch cyfarwyddiadau? | Maes Dysgu |
| **Ymuno wrth adrodd/canu hwiangerddi, rhigymau a chaneuon, eu hailadrodd neu eu dysgu ar y cof, gyda pheth cymorth** | FfLlRh |
| **Cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio:** gallwch chi wneud rhai o'r rhigymau yn fwy rhyngweithiol, er enghraifft gall y plant eu hadrodd mewn parau a gwneud gwahanol rannau yn eu tro, neu gallech chi ddefnyddio rhai o'r rhigymau actol fel rhigymau clapio. | FfLlRh |

Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cynnwys enghreifftiau o sut y mae rhigymau a chaneuon bob wythnos yn gallu cefnogi gwahanol sgiliau'r Cyfnod Sylfaen – edrychwch am flychau **cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen**. Dyma'r codau ar gyfer y Meysydd Dysgu:

- DPCh: Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol
- ILlCh: Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu
- DM: Datblygiad mathemategol
- DG: Datblygu'r Gymraeg
- GDB: Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd
- DCo: Datblygiad corfforol
- DCr: Datblygiad creadigol

# A wyddoch chi?

Mae llawer o astudiaethau ymchwil wedi darganfod cysylltiad rhwng gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o rigymau a sgiliau darllen. Daeth un astudiaeth i'r casgliad bod gwybodaeth plant o hwiangerddi pan maen nhw'n dair oed yn darogan eu hoedran darllen geiriau pan maen nhw'n chwech oed![2]





Mae plant yn sensitif i rythm lleferydd o enedigaeth. Erbyn y maen nhw'n naw mis oed, mae plant yn gallu nodi patrymau pwysleisio ac yn gallu tynnu gwybodaeth o'r iaith y maen nhw'n ei chlywed (fel hyd synau a seibiau) i nodi 'prif unedau ymadroddol'.[3]

2 Bryant, P., Bradley, L., Maclean, M. & Crossland, J. (1989) 'Nursery rhymes, phonological skills and reading', *Journal of Child Language*, 16(2), 407–28.
3 Kuppen, S.E.A. & Bourke, E. (2017) 'Rhythmic rhymes for boosting phonological awareness in socially disadvantaged children', *Mind, Brain and Education*, 11(4), 181–82.

# Wythnos 1: Rhigymau Rhifau

**Mae'r rhigymau hyn yn cefnogi llythrennedd. Maen nhw'n cynnwys cyfleoedd i gyfrif ar yn ôl yn ogystal â chyfrif mewn rhifau olynol, ac yn annog defnyddio iaith rifol, fel faint, mwy/llai ac ati. Maen nhw'n cynnwys llawer o ailadrodd, rhythm a phatrwm, ac maen nhw'n addas iawn ar gyfer ystumiau a symudiadau sy'n hwyl.**

## Pam i ni ddewis y rhigymau hyn?

Mae 'Deg yn Cysgu'n Iach' a 'Ten Fat Sausages' yn gofyn am gyfrif ar yn ôl, ac mae 'Ten Fat Sausages' yn cynnwys cyfrif mewn parau, yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer ystumiau difyr gyda'r 'Pop!' a'r 'Bang!'

Rydyn ni wedi cynnwys y fersiynau Cymraeg a Saesneg o 'Un a Dau a Thri Banana!'/'One and Two and Three Bananas!' Mae'r rhain yn rhigymau syml a difyr y mae modd eu haddasu'n hawdd i wahanol gyflymderau ac uchderau'r llais.

## Syniadau i gael hwyl â rhigymau rhifau

- Gofyn i rai o'r plant esgus bod y plant sy'n cysgu, y sosejys yn hisian a'r bananas tra bo gweddill y dosbarth yn cydganu.
- Gofyn i'r plant ymuno â'r ystumiau neu'r ymadroddion allweddol, fel 'Trowch drosodd!' a 'Bang!' Bydd angen iddyn nhw wrando ac aros, sy'n gallu datblygu eu gallu i reoli eu hunain.
- Defnyddio cardiau neu luniau rhifau i gynrychioli gwrthrychau yn y rhigymau. Gallech chi ofyn i'r plant eu dal i fyny ar yr adeg iawn wrth ichi ganu'r rhigymau.
- Defnyddio llinell rhifau wrth i'r plant adrodd 'Ten Fat Sausages' a 'Deg yn Cysgu'n Iach' fel eu bod nhw'n gallu gweld y patrymau wrth i'r rhigymau gyfrif ar yn ôl.
- Unwaith y mae'r plant yn gyfarwydd â'r rhigymau, beth am ddechrau ar 20 a chyfrif ar yn ôl i 10 neu o wahanol fannau cychwyn i helpu i estyn eu sgiliau rhifedd?

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**

- Adrodd amrywiaeth o rigymau a chaneuon rhifau ❖
- Cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy
- Deall bod sero yn golygu 'dim' ❖
- Adrodd rhifau i 20, ymlaen ac yn ôl, ac o fannau cychwyn gwahanol ❖

## Syniadau ar gyfer 'Deg yn Cysgu'n Iach'

- Dewis deg o blant i fod yn cysgu – eu trefnu yn ôl eu taldra. Gallwch chi hefyd wneud hyn â theganau a'u trefnu yn ôl nodweddion eraill, fel lliw, hyd ac ati.
- Defnyddio blociau sy'n cyd-gloi i wneud tŵr o ddeg bloc, naw bloc, wyth bloc ac ati, a'u trefnu o'r lleiaf i'r mwyaf, o'r mwyaf i'r lleiaf.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**

- Defnyddio cymariaethau uniongyrchol ar gyfer hyd, uchder a phellter
- Cyfrif hyd at 10 o wrthrychau'n ddibynadwy
- Cymharu a rhoi rhifau yn eu trefn hyd at 10 o leiaf
- Defnyddio rhifau trefnol i 10 mewn gweithgareddau bob dydd a chwarae ❖



## Syniadau ar gyfer 'Ten Fat Sausages'

- Gofyn i'r plant roi eu dwylo i fyny, neu eistedd mewn llinell â'u traed yn pwyntio ar i fyny, a chyfrif ar hyd y parau o ddwylo/esgidiau: 2, 4, 6, 8, 10, 12 ac ati.
- Gofyn i'r plant gasglu setiau o wrthrychau, ac yna'u cyfrif ar yn ôl fesul dau. Faint sydd wedi'u tynnu? Faint sydd ar ôl? Gallwch chi wneud hyn dan do neu yn yr awyr agored.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**

- Cyfrif fesul 2 i 10 ❖
- Tynnu gwrthrychau i ffwrdd er mwyn canfod 'faint sydd ar ôl?'
- Cynnig amcangyfrif synhwyrol o hyd at 10 o wrthrychau y gellir eu gwirio drwy gyfrif ❖

## Syniadau ar gyfer 'Un a Dau a Thri Banana!' ac 'One and Two and Three Bananas!'

- Rhoi cynnig ar ryseitiau banana: brechdanau banana, ysgytlaeth banana, myffins banana ac ati.
- Gwneud sgiwerau ffrwythau, gan roi gwahanol ffrwythau mewn trefn sy'n dilyn dilyniant neu batrwm.
- Defnyddio gwaith paratoi bwyd i ofyn cwestiynau ynglŷn â rhifedd: Sawl sleisen banana sydd yn y frechdan? Sawl llond llwy o flawd sydd eu hangen?
- Gwneud nodyn bob diwrnod o'r wythnos ynglŷn â faint o blant sy'n dewis bananas amser byrbryd. Gallech chi greu siart bar neu bictogram.
- Chwarae 'Mi wela' i efo fy llygad bach i, rhywbeth melyn'.
- Gwneud Bocs Melyn. Gallech chi ofyn i'r plant gasglu pethau melyn a'u gosod nhw yn y bocs. Gallech chi drafod yr eitemau yn y bocs: Beth ydyn nhw? Pwy ddaeth o hyd i bob eitem? Gallech chi orchuddio'r bocs a chwarae gêm cof – sawl eitem y mae'r plant yn gallu eu henwi?
- Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i annog teuluoedd i rannu ffotograffau, er enghraifft 'Beth ydy'r lle mwyaf anghyffredin i ganu'r caneuon banana a bwyta banana?' Gallech chi arddangos y ffotograffau ger y man y mae'r rhieni/gofalwyr yn dod â'u plant i'r ysgol, i'w hannog i chwarae rhan.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**

- Cofnodi casgliadau drwy ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau
- Didoli a dosbarthu gwrthrychau drwy ddefnyddio un maen prawf
- Adnabod ac ailadrodd patrwm a dilyniant o dri gwrthrych/lliw/clap ❖



# Wythnos 2: Hwiangerddi

**Mae hwiangerddi a chaneuon traddodiadol wedi bod gyda ni am genedlaethau. Yn aml, mae ganddyn nhw naratif neu ddilyniant digwyddiadau ac maen nhw'n adrodd straeon syml, difyr. Mae llawer ohonyn nhw hefyd yn cynnwys iaith a geirfa a allai fod yn newydd i'r plant.**

## Pam i ni ddewis y rhigymau hyn?

Mae 'Hicori Dicori Doc' yn gyfarwydd yn y Gymraeg a'r Saesneg ac o bosibl yn fwy hygyrch i ddysgwyr Cymraeg. Mae'n adrodd stori syml ac yn cynnwys cyfleoedd i wneud ystumiau a chyfrif.

Mae 'Miss Polly Had a Dolly' a 'Grand Old Duke of York' yn adrodd straeon ac yn cynnig llawer o gyfleoedd i wneud ystumiau.

Mae 'Fuoch Chi Erioed yn Morio?' yn rhigwm difyr sy'n adrodd stori ddwl.


## Syniadau ar gyfer 'Hicori Dicori Doc'

- Defnyddio ystumiau: ymestyn i fyny ac i lawr i ddangos y llygoden yn rhedeg a chlapio nifer trawiadau'r cloc.
- Rhannu wynebau cloc â'r amseroedd o un o'r gloch i bump o'r gloch. Ydy'r plant yn gallu eu rhoi nhw yn eu trefn? Gallech chi ddefnyddio llygoden degan neu byped bys i 'ymweld' â phob cloc wrth ichi adrodd y rhigwm.
- Cysylltu'r amseroedd ar y cloc â'r hyn y mae'r plant yn ei wneud: 'Beth ydych chi'n ei wneud am un o'r gloch?'
- Cysylltu â rhigymau eraill ynglŷn ag amser a'r drefn feunyddiol, er enghraifft 'Dyma sut 'dyn ni'n brwsio ein dannedd ... Dyma sut 'dyn ni'n bwyta ein cinio ...' ac ati.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**

- Defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas â'u gweithgareddau bob dydd



## Syniadau ar gyfer 'Miss Polly Had a Dolly'

- Cydganu'r gân gan ddefnyddio ystumiau i helpu'r plant i fewnoli'r naratif.
- Gofyn i'r plant adrodd stori Miss Polly yn eu geiriau eu hunain, neu actio'r stori – gallen nhw ddefnyddio celfi a gwisgoedd i 'berfformio'.
- Rhoi lluniau mewn trefn sy'n dangos y digwyddiadau yn y rhigwm i ddilyniannu'r stori.
- Defnyddio'r gân i siarad am 'bobl sy'n ein helpu ni'. Gallech chi ddefnyddio chwarae rôl, er enghraifft actio ymweliad â'r meddyg, gan gynnwys 'ysgrifennu' presgripsiwn i ymarfer gwneud marciau.
- Ac...Rydyn ni wedi ychwanegu pennill arall ynglŷn â 'Little Eddy' at y gân – gwelwch dudalen 23.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**

- Ailadrodd naratifau neu wybodaeth y maent wedi'u clywed mewn termau syml ❖
- Ail-ddweud storïau cyfarwydd mewn ffordd sy'n syml, gan ddefnyddio lluniau i'w helpu ▲
- Cyfrannu i weithgareddau chwarae rôl gan ddefnyddio iaith berthnasol

## Syniadau ar gyfer 'Fuoch Chi Erioed yn Morio?'

- Paentio llun am y rhigwm. Gallech chi ofyn i'r plant gynnwys pethau o'r rhigwm, fel y badell ffrïo ar y môr mewn tywydd garw, rhywun â wyneb trist, yr wylan wen.
- Cysylltu'r rhigwm â'r calendr Dyna Dywydd: siarad am y tywydd yn y rhigwm, tynnu lluniau neu gwblhau'r calendr Dyma Dywydd gyda'ch gilydd.
- Mae'r rhigwm yn disgrifio hwylio mewn padell ffrïo. Gallech chi ofyn i'r plant beth y bydden nhw'n hoffi hwylio ynddo! Gallech chi ofyn i'r plant a ydyn nhw wedi bod mewn cwch a gadael iddyn nhw ddisgrifio'u profiad.
- Ymchwilio i ddeunyddiau a'u didoli i rai sy'n aros ar wyneb y dŵr neu'n suddo. Gallech chi wneud cwch a'i 'lansio'. Ydy'r cwch yn aros ar wyneb y d r neu'n suddo? Gallech chi drafod beth sy'n digwydd.
- Siarad am deimladau ac emosiynau: 'Pam fod y person yn y rhigwm yn crio? Beth sy'n gwneud i chi grio? Beth sy'n eich gwneud chi'n drist neu'n hapus?'

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**ILlCh:**
- Dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, e.e. wrth dynnu llun
- Siarad am bethau o'u profiad a rhannu gwybodaeth

**GDB:**
- Meddwl yn greadigol a dychmygus
- Archwilio ac arbrofi

**DPCh:**
- Mynegi a chyfleu gwahanol deimladau ac emosiynau – rhai eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill


## Syniadau ar gyfer 'Grand Old Duke of York'

- Martsio o amgylch yr ystafell ddosbarth a'r ysgol – dan do ac yn yr awyr agored! Gallech chi fartsio yn un llinyn neu gyda dau o blant ochr yn ochr (cofiwch gyfrif fesul dau!).
- Gofyn i'r plant ddilyn cyfarwyddiadau. Gallech chi ddefnyddio ystumiau i ddangos 'up', 'down' a 'halfway'. Gallech chi ofyn i'r plant roi cyfarwyddiadau i'w gilydd.
- Defnyddio offerynnau taro i farcio curiad y rhigwm a phwysleisio'r rhythm. Gallai'r plant wneud eu drymiau a'u hysgydwyr eu hunain. Gallech chi greu band martsio!
- Edrych ar ystyr 'halfway'. Gallech chi ddefnyddio cynwysyddion sy'n llawn 'halfway', neu ofyn i'r plant gerdded 'halfway' ar draws yr ystafell ac ati.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**DM:**
- Defnyddio arddodiaid i ddisgrifio safle ❖

**DCr:**
- Dylunio a gwneud cynnyrch a mecanweithiau syml
- Gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau
- Chwarae patrymau rhythmig a melodig syml ar amrywiaeth o offerynnau





# Wythnos 3: Cylymau Tafod

**Rydyn ni wedi cynnwys cylymau tafod yn yr Her Rigymu i roi cyfleoedd i blant gael eu tafod o amgylch rhywfaint o iaith sy'n hwyl ac yn her. Bydd angen i'r plant wrando'n ofalus i ddysgu'r rhigymau hyn, ac efallai y bydd yn helpu os y gallan nhw weld eich wyneb wrth ichi eu dweud.**

**Mae adrodd y rhigymau hyn yn gallu helpu i ddatblygu sgiliau ynganu plant mewn ffordd sy'n hwyl ac yn anfygythiol. Dechreuwch yn araf deg, a chyflymu wrth i'r plant ddod yn fwy cyfarwydd â'r rhigymau. Mae hyn yn hwyl fawr, a phan y bydd pethau'n mynd o chwith mae'n galonogol i'r plant wybod ei bod hi'n iawn gwneud camgymeriadau!**

## Pam i ni ddewis y rhigymau hyn?

Mae pob un o'r rhigymau hyn yn chwarae â geiriau ac yn cynnwys digonedd o iaith a synau sy'n hwyl. Maen nhw'n cynnwys nodweddion fel cyflythreniad ac onomatopeia. Rydyn ni wedi dewis cymysgedd o glymau tafod hir a byr yn y Gymraeg a'r Saesneg fel bod y plant i gyd yn gallu chwarae rhan.

## Syniadau ar gyfer 'Pedoli Pedoli'

- Mae'r rhigwm hwn yn defnyddio onomatopeia ar gyfer sŵn y gof yn curo hoelion i'r bedol. Gallech chi ddarganfod mwy am ofaint. Gallech chi wylio fideo o'r gof wrth ei waith, a gofyn i'r plant ddynwared ystumiau'r gof.
- Beth yw maint yr esgidiau y mae'r plant yn eu gwisgo? Gallech chi wneud graff dosbarth.
- Mae'n costio £1 i bedoli'r ceffyl. Faint fyddai hi'n costio i bedoli dau geffyl? Gallech chi chwarae rôl mewn siop esgidiau, a defnyddio arian chwarae.
- Cyfateb esgidiau i wneud parau. Beth arall sy'n dod mewn parau?

## Syniadau ar gyfer 'Yellow Butter, Purple Jelly'

- Dylunio a gwneud brechdanau lliwgar. Beth fyddai'n gwneud llenwad lliwgar a blasus? Letys gwyrdd, caws melyn, tomato coch, bara brown ac ati. Gallech chi siarad am fwyta'n iach.
- Gwneud jeliïau'r enfys gan ddefnyddio jeli o liwiau gwahanol. Unwaith y bydd y lliw cyntaf wedi ceulo, ychwanegwch y lliw nesaf pan mae'r jeli wedi oeri, aros iddo geulo ac ailadrodd y broses. Gallech chi ychwanegu ffrwythau at y jeli hefyd.





## Syniadau ar gyfer 'Tarw Corniog'

- Gwartheg gwrywaidd ydy teirw. Pa enwau eraill y gallwch chi ddod o hyd iddyn nhw ar gyfer anifeiliaid gwrywaidd, benywaidd ac ifanc?
- Mewn grwpiau, tynnu llun o'r 'tarw corniog'. Sut y mae'r lluniau'n wahanol?

## Syniadau ar gyfer 'The Seasons'

- Beth ydy ystyr y gwahanol eiriau yn y gerdd? Gofynnwch i'r plant wneud ystumiau sy'n eu dangos.
- Pa eiriau eraill ydyn nhw'n eu gwybod i ddisgrifio 'rain' a 'cold'? Defnyddio'r rhigwm i edrych ar syniadau am boeth ac oer, gan ddefnyddio hambyrddau synhwyraidd ac ati.
- Gwneud symudion, lluniau neu ludweithiau i ddangos y tymhorau. Gallech chi rannu'r dosbarth yn grwpiau a gofyn i bob grŵp ganolbwyntio ar un tymor. Dangoswch eu gwaith wrth i'r dosbarth adrodd y rhigwm.
- Defnyddio gwrthrychau naturiol i greu potiau i ddangos y gwahanol dymhorau. Gallech chi ofyn i'r plant eu didoli, neu eu defnyddio nhw i wneud lluniau.
- Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o'r byd trwy nodi effeithiau'r gwahanol dymhorau ar rai anifeiliaid a phlanhigion.



## Syniadau ar gyfer y Cylymau Tafod

- Sawl tro y gallwch chi ddweud y rhigymau hyn cyn i bethau fynd o chwith?
- Rholio lori i lawr estyllen. Lori pwy ydy'r un gyflymaf?
- Siarad am yr Wyddfa (Eryri), y mynydd uchaf yng Nghymru. A allwch chi adeiladu mynydd uchel? Gallech chi ddefnyddio teganau adeiladu neu ddeunydd sothach. Mynydd pwy ydy'r un uchaf? Tynnwch luniau o bob plentyn ger eu mynydd.
- Sawl peth allwch chi ddod o hyd iddyn nhw sy'n dechrau â'r llythyren 'S'? Gallech chi chwarae 'Mi wela' i...', gan ganolbwyntio ar y llythyren hon.



### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**ILlCh:**

- Siarad yn glywadwy
- Dangos ymwybyddiaeth o gyflythreniad ac odl ❖
- Neilltuo a nodi synau cychwynnol mewn gair llafar ❖

# Wythnos 4: Rhigymau Actol

**Mae ystumiau'n helpu plant i gofio geiriau ac ymuno â phethau. I rai plant, mae ystumiau'n cefnogi'r cof ac mae'n bosibl y byddan nhw'n ei chael hi'n haws ymuno â'r ystumiau nag â'r geiriau.**

**Mae perfformio ystumiau yn ystod rhigymau a chaneuon hefyd yn gallu cefnogi datblygiad corfforol plant, fel datblygu sgiliau echddygol manwl a bras a sgiliau cydsymud. Maen nhw hefyd o bosibl yn helpu i ddatblygu hyder a'u hymdeimlad o'r hunan – ac ymwybyddiaeth ofodol.**

**Mae'r rhigymau clapio'n annog y plant i weithio gyda phartner a datblygu sgiliau cymdeithasol fel aros eu tro ac ymuno â phethau, sydd hefyd yn sgiliau hanfodol ar gyfer cyfathrebu.**

## Pam i ni ddewis y rhigymau hyn?

Mae 'Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed' a 'Head, Shoulders, Knees and Toes' yn rhigymau hoff iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda digonedd o gyfleoedd i gael hwyl a chwarae.

Mae'n bosibl defnyddio 'A Sailor Went to Sea' a 'Migldi Magldi' fel caneuon clapio.

## Syniadau ar gyfer 'Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed' a 'Head, Shoulders, Knees and Toes'

- Mae hwn yn weithgaredd gwych i baratoi ar gyfer ymarfer corff ac yn rhigwm gwych i'w ddweud os oes angen rhoi hwb i egni'r plant neu eu helpu i ganolbwyntio.
- Dweud y rhigwm mewn cymaint o wahanol ffyrdd ag y gallwch. Gallech chi ei ddweud yn uchel ac yn dawel, gwneud yr ystumiau mor fawr ac mor fach ac y gallwch, neu ei ddweud yn gyflym iawn neu araf iawn.
- Pan mae'r plant yn gwybod y gân yn dda, hepgor enw rhan o'r corff bob tro ond cynnwys yr ystum. Mae hyn yn her ac mae'n dda i ddatblygu sgiliau gwrando a chanolbwyntio.
- Defnyddio lluniau wedi'u torri'n ddarnau gyda gwahanol rannau o'r corff i wneud cymeriadau a chreaduriaid newydd.
- Gwneud arddangosfa ynglŷn â 'ni'n hunain', gyda'r plant yn tynnu lluniau o wahanol rannau o'r corff ac yn eu labelu.
- Cysylltu'r rhigwm â chaneuon actol eraill, fel 'Un Bys yn Dawnsio' a 'Hokey Cokey'.



# Syniadau ar gyfer clapio â 'Migldi Magldi' ac 'A Sailor Went to Sea'

Syniadau ar gyfer clapio â 'Migldi Magldi' ac 'A Sailor Went to Sea'



- Clapio'r curiad i bwysleisio rhythm y gân.
- Clapio gyda'r geiriau sy'n cael eu hailadrodd ar ddiwedd y llinellau yn unig, fel 'sea, sea, sea' a 'hei no no' – bydd angen i'r plant wrando'n astud!
- Clapio mewn parau – gofynnwch i'r plant wynebu ei gilydd a tharo eu dwy law â'u partner ar bob yn ail guriad y caneuon.
- Ceisio herio ac estyn y clapio unwaith y mae'r plant yn gyfarwydd â'r rhythm trwy gynnwys plant hŷn. Gellir dysgu ystumiau ar gyfer y caneuon clapio iddyn nhw, a chlustnodi plant o'r dosbarth Derbyn i fod yn bartneriaid iddyn nhw amser chwarae ac amser cinio.
- Rhoi cynnig ar y patrwm hwn ar gyfer 'A Sailor Went to Sea':

| Y Llinell Gyntaf | Patrwm clapio |
|---|---|
| **A** | Clapio'r ddwy law â'i gilydd |
| **Sail-** | Taro'r llaw dde â llaw dde'r partner |
| **-or** | Clapio'r ddwy law â'i gilydd |
| **Went** | Taro'r llaw chwith â llaw chwith y partner |
| **to** | Clapio'r ddwy law â'i gilydd |
| **Sea** | Taro dwy law y partner |
| **Sea** | Taro dwy law y partner |
| **Sea** | Taro dwy law y partner |
| **Ailadrodd y patrwm ar gyfer pob llinell** | |

# Mwy o syniadau ar gyfer 'Migldi Magldi' ac 'A Sailor Went to Sea'

- Trafod: Beth allwch chi ei weld ar waelod y môr glas dwfn? Pa greaduriaid sy'n byw yno?
- Ychwanegu llythrennau, gwrthrychau a rhifau i ardal ddŵr a gofyn i'r plant eu sgwpio allan i weld beth y maen nhw'n gallu ei weld.
- Gwylio rhai fideos o ddawnsio gwerin Cymreig ar-lein. Gallech chi roi cynnig ar ddawns gylch, er enghraifft yn dal dwylo mewn cylch a symud un ffordd, ac yna'r ffordd arall, troi o amgylch gyda phartner ac ati.

### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**ILlCh:**

- Gwrando ar a dilyn cyfarwyddyd mewn tri cham ❖
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau gydag eraill, gyda pheth rhyngweithio

**DCo:**

- Datblygu sgiliau cydsymud
- Datblygu sgiliau echddygol bras
- Datblygu hyder
- Rheoli symudiadau'r corff

# Wythnos 5: Cerddi Difyr

**Mae'r rhigymau byr hyn yn gyflwyniad gwych i farddoniaeth ac maen nhw'n parhau â siwrnai raddol trwy odl. Maen nhw'n cynnwys iaith ddeniadol a chwareus, ac mae rhai yn cynnwys syniadau mwy soffistigedig.**

**Mae'r synau odli'n gallu helpu'r plant i gofio'r cerddi ac yn creu cynefindra, rhagweladwyedd a disgwyliad. Gallech chi oedi cyn y gair sy'n odli i annog y plant i ragweld beth sy'n dod nesaf.**

## Pam i ni ddewis y rhigymau hyn?

Mae 'Dw i'n Hoffi' ac 'I Eat My Peas With Honey' yn rhigymau syml, byr. Mae'r iaith yn 'Dw i'n Hoffi' yn hygyrch i ddysgwyr Cymraeg, ac mae pys a mêl yn gyfuniad clasurol!

Mae 'Pry Pric yn y Picnic' yn cynnwys llawer o iaith ddifyr gydag odlau mewnol mwy cymhleth, ond mae ei rhythm dal yn gryf.

Mae 'Frank the Friendly Alien' yn adrodd stori ac yn rhoi'r cyfle i'r plant ddychmygu Frank – gyda thro annisgwyl ar y diwedd.

## Syniadau ar gyfer 'Dw i'n Hoffi'

- Siarad am y tywydd. Gallech chi ofyn i'r plant beth y maen nhw'n hoffi ei wneud pan mae'r haul yn tywynnu. Beth ydy'r tywydd heddiw? Beth ydy'ch hoff dywydd? Gallech chi greu pictogram dosbarth ynglŷn â hoff fathau o dywydd. Neu beth am gwblhau siart tywydd dyddiol a chysylltu hyn â'r calendr Dyna Dywydd y mae'r plant yn ei dderbyn?
- Gwisgo tedi neu degan yn briodol ar gyfer gwahanol fathau o dywydd.
- Gwneud castell tywod yn y pwll tywod. Castell pwy ydy'r un talaf/lletaf? Sawl castell tywod y gallwch chi eu gwneud cyn i'r amserydd ddod i ben?
- Cynnal digwyddiad chwaraeon gyda gwahanol fathau o rasys. Gallech chi ddefnyddio rhifau trefnol i ddisgrifio pwy ddaeth yn gyntaf, yn ail, yn drydydd, yn bedwerydd ac ati.



### Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen

**ILlCh:**

- Mynegi beth yw eu hoff bethau a'u cas bethau

**DM:**

- Defnyddio rhifau trefnol i 10 mewn gweithgareddau bob dydd a chwarae ❖

## Syniadau ar gyfer 'I Eat My Peas With Honey'

- A hoffech chi fwyta pys efo mêl? Ydy cyfuno pys a mêl yn gall? Gallech chi siarad am gyfuniadau o fwydydd eraill a ph'un a ydyn nhw'n gall ai peidio.
- Arbrofi i weld beth y bydd pys yn glynu wrtho. Gallech chi osod cynwysyddion gydag amrywiaeth o fwydydd, fel tatws stwmp, llaeth, menyn ac ati ynddyn nhw. Gofynnwch i'r plant beth i'w roi ar brawf â llwy de ac ychydig o bys – ydyn nhw'n gallu rhagweld beth fydd yn digwydd.
- Rhoi cynnig ar ryseitiau sy'n defnyddio mêl. Ble y mae mêl yn dod ohono? Sut mae'n cael ei wneud? Gallech chi ddefnyddio llyfrau gwybodaeth i ddod i wybod am wenyn.
- Archwilio amrywiaeth o 'dapiau sticlyd', fel selotep, tâp masgio, tâp dwyochrog a thâp brethyn. Pa dâp ydy'r un mwyaf sticlyd?
- Amcangyfrif a chyfrif grwpiau o bys sychion.

**Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen**

**GDB:**

- Archwilio ac arbrofi
- Meddwl am beth allai ddigwydd pe bai ...
- Disgrifio'r hyn y maent wedi'i ddarganfod a chynnig esboniadau syml

## Syniadau ar gyfer 'Pry Pric yn y Picnic'

- Cynllunio a chynnal Picnic y Tedis. Pa fwyd ddylen ni ei bacio? Faint o ddiod ddylen ni fynd ag ef efo ni? Faint fydd ei angen arnon ni? Pwy fyddwn ni'n eu gwahodd? Pa gemau fyddwn ni'n eu chwarae?
- Bod yn fforiwr a mynd ar helfa mân fwystfilod. Beth sydd angen i ni fynd ag ef efo ni? Gallech chi wneud rhestr ddarluniadol o offer i'r plant eu casglu. Gallech chi chwilio am fân fwystfilod a thynnu lluniau o'r rhai rydych chi wedi dod o hyd iddyn nhw. Defnyddiwch iaith arddodiadol (fel yn y gerdd) i siarad am y lleoedd y daeth y plant o hyd i'r gwahanol fwystfilod.

## Syniadau ar gyfer 'Frank the Friendly Alien'

- Gofyn i'r plant ychwanegu ystumiau at bob llinell wrth ichi adrodd y gerdd.
- Amrywio'ch llais rhwng y dychrynllyd a'r cyfeillgar i gyd-fynd â'r llinellau yn y gerdd. Gallech chi newid yn sydyn i lais bach ofnus wrth ichi adrodd llinell glo ddoniol y gerdd. Bydd y plant yn eich dynwared wrth iddyn nhw adrodd y gerdd.
- Gofyn i'r plant dynnu llun neu baentio Frank, neu ddefnyddio TGCh. Gallech chi gymharu a thrafod eu lluniau. Os bydd y plant yn defnyddio TGCh, a allan nhw ychwanegu eu lleisiau i wneud i Frank siarad?
- Siarad am Frank. Ble ydych chi'n meddwl y mae Frank yn dod ohono? Sut iddo ddod yma? Sut olwg sydd ar ei blaned/ei gartref ef? Beth fydden ni'n ei ddweud wrtho am ein planed ni?
- Siarad am deimladau. Gofynnwch i'r plant: Beth sy'n eich gwneud chi'n ofnus? Beth sy'n gwneud ichi deimlo'n well/yn hapus? Sut allen ni wneud i Frank deimlo'n llai ofnus? Sut allwn ni fod yn gyfeillgar? Siaradwch am fod â ffrindiau a chysylltu hyn â llyfrau straeon sy'n edrych ar wahaniaethau a chyfeillgarwch.
- Gallwch chi weld y fersiwn lawn o 'Frank the Friendly Alien' ar dudalen 26.

**Cysylltiadau Fframwaith y Cyfnod Sylfaen**

**ILlCh:**

- Dangos eu bod wedi gwrando ar eraill, e.e. wrth dynnu llun
- Dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol
- Ateb cwestiynau syml 'Pwy?', 'Beth?' a chwestiynau penagored sy'n gysylltiedig â'u profiadau eu hunain, storïau neu ddigwyddiadau ❖

**DPCh:**

- Bod yn ymwybodol o anghenion pobl eraill a'u parchu
- Deall y berthynas rhwng teimladau a gweithrediadau, a deall bod gan bobl eraill deimladau
- Deall yr hyn sy'n gwneud ffrind da

# Wythnos 1: Rhigymau Rhifau

## Deg yn Cysgu'n Iach

Roedd 10 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 9 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 8 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 7 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 6 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 5 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 4 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 3 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 2 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Roedd 1 yn cysgu'n iach
a dywedodd yr un bach,
'Trowch drosodd, trowch drosodd.'
Fe drodd pawb drosodd
a disgynnodd un i'r llawr.

Doedd na 'run yn cysgu'n iach! Nos Da!





## Ten Fat Sausages

Ten fat sausages, sizzling in a pan.
Ten fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were eight fat sausages, sizzling in a pan.

Eight fat sausages, sizzling in a pan.
Eight fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were six fat sausages, sizzling in a pan.


Six fat sausages, sizzling in a pan.
Six fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were four fat sausages, sizzling in a pan.

Four fat sausages, sizzling in a pan.
Four fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were two fat sausages, sizzling in a pan.

Two fat sausages, sizzling in a pan.
Two fat sausages, sizzling in a pan.
One went 'Pop!' and another went 'Bang!'
There were no fat sausages, sizzling in a pan.









## Un a Dau a Thri banana!

Un a dau a thri banana,
Pedwar, pump a chwech banana,
Saith ac wyth a naw banana,
Deg banana felen!

## One and Two and Three Bananas!

One and two and three bananas,
Four and five and six bananas,
Seven and eight and nine bananas,
Ten yellow bananas!

# Wythnos 2: Hwiangerddi

## Hicori Dicori Doc

Hicori Dicori Doc,
llygoden lan y cloc;
mae'n taro tri,
i lawr â hi!
Hicori Dicori Doc.

Hicori Dicori Doc,
malwoden lan y cloc;
mae'n taro un,
aeth lawr yn flin,
Hicori Dicori Doc.

Hicori Dicori Doc,
aeth draenog lan y cloc;
mae'n taro dau,
aeth lawr yn glou,
Hicori Dicori Doc.



## Fuoch Chi Erioed yn Morio?



Fuoch chi erioed yn morio?
Wel do mewn padell ffrio;
chwythodd y gwynt fi i'r Eil o Man,
a dyna lle bum i'n crio.

Crio'n arw arw,
dim byd ond tywydd garw;
be' glywn i'n rhywle uwch fy mhen,
ond gwylan wen yn galw.

Gwylan wen yn galw -
'Wel wir mae'n biti garw.
Rhaid i ti aros hanner dydd,
yn llonydd am y llanw.'

Llanw'n dwad wedyn,
a'r gwynt yn troi yn sydyn;
lansio'r badell ar y gro,
a nofio'n ôl i Nefyn.



## Miss Polly Had a Dolly

Miss Polly had a dolly who was sick, sick, sick.
So she phoned for the doctor to be quick, quick, quick.

The doctor came with her bag and her hat.
And she knocked at the door with a rat-a-tat-tat.

She looked at the dolly and she shook her head.
Then she said to Miss Polly, 'Put her straight to bed!'

She wrote on a paper for a pill, pill, pill.
'I'll be back in the morning for my bill, bill, bill.'

Little Eddy had a teddy who was sick, sick, sick.
So, he phoned for the doctor to come quick, quick, quick.

The doctor came with his bag and his hat.
And he knocked at the door with a rat-a-tat-tat.

He looked at the teddy and he shook his head.
Then he said to 'Little Eddy, 'Put him straight to bed!'

He wrote on a paper for a pill, pill, pill.
'I'll be back in the morning, yes I will, will, will.'





## Grand Old Duke of York

Oh, the Grand Old Duke of York,
He had ten thousand men,
He marched them up to the top of the hill,
And he marched them down again.

And when they were up, they were up,
And when they were down, they were down,
And when they were only half way up,
They were neither up nor down.




# Wythnos 3: Cylymau Tafod

## Pedoli Pedoli

Pedoli, pedoli, pedoli, pe-dinc,
mi fynnaf bedoli pe gostiau imi bunt.
Pedol yn ôl a phedol ymlaen,
pedol yn eisiau o dan y troed aswy.
Pe-dinc, pe-dinc, pe-dinc,
pe-dinc, pe-dinc, pe-dinc.

Pedoli, pedoli, pedoli, bi-drot,
rhaid i mi bedoli, ond gostia i mi 'rot.
Pedol yn dynn o dan y troed hyn,
gwaith y gŵr gwyn sydd yn y Gelli.
Bi-drot, bi-drot, bi-drot,
bi-drot, bi-drot, bi-drot.


Pedoli, pedoli, pedoli, pe-doc,
mi fynnaf bedoli yr hen geffyl broc.
Pedol yn ôl a phedol ymlaen,
pedol yn eisiau o dan y troed aswy.
Pe-doc, pe-doc, pe-doc,
pe-doc, pe-doc, pe-doc.






## Tarw Corniog

Tarw corniog, torri cyrnau,
Heglau baglog, higlau byglau;
Higlau byglau, heglau baglog,
Torri cyrnau tarw corniog.







## Yellow Butter, Purple Jelly

Yellow butter, purple jelly, red jam, black bread.
Spread it thick, say it quick!

Yellow butter, purple jelly, red jam, black bread.
Spread it thicker, say it quicker!

Yellow butter, purple jelly, red jam, black bread.
Don't eat with your mouth full!

## The Seasons

Spring is showery, flowery, bowery,
Summer is hoppy, croppy, poppy,
Autumn is wheezy, sneezy, freezy,
Winter is slippy, drippy, nippy.



## Cylymau Tafod Bach

Rowliodd lori Lowri lawr y lôn.

Oer yw eira ar Eryri.

## Little Tongue Twisters

Red lorry, yellow lorry. Red lorry, yellow lorry.
Red lorry, yellow lorry.

Six sleek swans swam swiftly southwards.

# Wythnos 4: Rhigymau Actol



## A Sailor Went to Sea

A sailor went to sea, sea, sea,
To see what he could see, see, see.
But all that he could see, see, see,
Was the bottom of the deep blue sea, sea, sea.
(chorus)

Far across the sea he went,
Far across the sea he went,
Far across the sea he went,
Until the day was over.



The sailor dipped his toe, toe, toe,
To see if the tide was low, low, low.
But when he dipped his toe, toe, toe,
A big fish bit him so, so, so.
(chorus)

The sailor took a nap, nap, nap,
He was a lazy chap, chap, chap.
But when he took his nap, nap, nap,
A seagull pinched his cap, cap, cap.
(chorus)

The sailor dipped his net, net, net,
To see what he could get, get, get.
But all that he could get, get, get,
Was very, very soaking wet, wet, wet!
(chorus)





## Migldi Magldi

Ffeind a difyr ydyw gweled,
migldi magldi hei no no.
Drws yr efail yn agored,
migldi magldi hei no no.
A'r go bach a'i wyneb purddu,
migldi magldi hei no no.
Yn yr efail yn prysur chwythu,
migldi magldi hei no no.

Ffeind a braf yw sŵn y fegin,
migldi magldi hei no no.
Gwrando chwedl, cân ac englyn,
migldi magldi hei no no.
Pan fo'r cwmni yn ei afiaith,
migldi magldi hei no no.
Ceir hanesion llawer noswaith,
migldi magldi hei no no.

Pan ddaw'r môr i ben y mynydd,
migldi magldi hei no no.
A'i ddwy ymyl at ei gilydd,
migldi magldi hei no no.
A'r coed rhosys yn dwyn 'falau,
migldi magldi hei no no.
Dyna'r pryd y cei di finnau,
migldi magldi hei no no.





## Head, Shoulders, Knees and Toes

Head, shoulders, knees and toes,
Knees and toes.
Head, shoulders, knees and toes,
Knees and toes.
And eyes, and ears, and mouth,
And nose.
Head, shoulders, knees and toes,
Knees and toes.



## Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed

Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Pen, ysgwyddau, coesau, traed,
Llygaid, clustiau, trwyn a cheg,
Pen, ysgwyddau, coesau, traed.

Pen-glin, penelin a phen ôl, a phen ôl,
Pen-glin, penelin a phen ôl, a phen ôl,
A bola, braich a thafod hir a main,
Pen-glin, penelin a phen ôl, a phen ôl.

# Wythnos 5: Cerddi Difyr


## Dw i'n Hoffi



Dwi'n hoffi'r haul a tywydd braf
A mynd i lan y môr bob haf,
Cael nofio yn y môr mawr glas,
Gwneud castell tywod, rhedeg ras.




## I Eat My Peas With Honey




I eat my peas with honey,
I've done it all my life.
It makes the peas taste funny,
But it keeps them on the knife.

## Pry Pric yn y Picnic

Roedd 'na bry cop yn y pop,
pry llydan yn y frechdan,
pili pala ar y fala,
chwilen yn y gacen,
gwenyn yn y menyn,
cacwn ar y bacwn,
siani flewog ar yr eog,
mosgito ar y tomato,
cnonod yn y nionod,
chwain ar darten Nain,
lindys ar y mefus,
penbyliad yn y salad,
morgrugyn ar y brigyn
a gwybedyn yn y rhedyn,
ond nes i'm bwyta'r rheiny!





## Frank the Friendly Alien



I'm Frank, the friendly alien.
From deepest outer space.
My face is fairly friendly.
It's such a friendly face.

My teeth are sharp and pointed.
My eyes are big and red.
I have such friendly features
upon my friendly head.

My horns are green and shiny.
I have exactly three.
My nose is long and crooked,
the way a nose should be.

My ears are huge and scaly.
My tongue is brown and blue.
The people from my planet,
all look friendly like I do.

My claws are shaped like daggers.
My hands are huge and hairy.
I'd love to stay and tell you more,
but you look much too scary.



Mae Pori Drwy Stori'n ysbrydoli cariad at lyfrau, straeon a rhigymau, ac mae'n cefnogi plant mewn dosbarthiadau Meithrin a Derbyn i ddatblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a llafaredd. Trwy Pori Drwy Stori, mae BookTrust Cymru'n cyflenwi adnoddau llythrennedd a rhifedd rhad ac am ddim i'w defnyddio yn y dosbarth ac yn y cartref. Mae'r adnoddau wedi'u dylunio'n arbennig i gefnogi rhieni a gofalwyr i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plentyn.

Mae rhaglen Pori Drwy Stori'n cefnogi'r Cyfnod Sylfaen a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

BookTrust Cymru sy'n cyflenwi rhaglen Pori Drwy Stori, ac mae Llywodraeth Cymru'n ei hariannu.

Pori Drwy Stori inspires a love of books, stories and rhymes and supports children in Nursery and Reception to develop literacy, numeracy and oracy skills. Through Pori Drwy Stori, BookTrust Cymru supplies free literacy and numeracy resources to be used in class and at home. The resources are especially designed to support parents and carers to play an active role in their child's education. The Pori Drwy Stori programme supports the Foundation Phase and the Literacy and Numeracy Framework.

Pori Drwy Stori is delivered by BookTrust Cymru and funded by the Welsh Government.




*Deg yn Cysgu'n Iach:* Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu trwy ganiatâd caredig Child's Play (International) Ltd. © 1979 Child's Play.

*Ten Fat Sausages:* Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm One Finger, One Thumb (SSCD002) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

*Miss Polly Had a Dolly:* Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm Humpty Dumpty (PTCD260) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

*Grand Old Duke of York:* Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm Humpty Dumpty (PTCD260) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

*Fuoch Chi Erioed yn Morio?:* Traddodiadol.

*Yellow Butter, Purple Jelly:* Wedi'i ddefnyddio trwy ganiatâd Asiant llenyddol Gina Maccoby. Hawlfraint © 1981gan Mary Ann Hoberman.

*Pedoli Pedoli:* Traddodiadol.

*The Seasons:* Hawlfraint © Mother Goose.

*A Sailor Went to Sea:* Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *Row, Row, Row Your Boat* (SSCD17) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

*Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed:* Geiriau i *Head, Shoulders, Knees and Toes* wedi'u hatgynhyrchu trwy ganiatâd caredig Babyboomboom Ltd. Gallwch chi fynd i Babyboomboom.com i gael mwy o ganeuon Cymraeg dwyieithog.

*Migldi Magldi:* Traddodiadol.

*Head, Shoulders, Knees and Toes:* Geiriau'r gân wedi'u hatgynhyrchu o'r albwm *This Little Piggy* (STNCD02) trwy ganiatâd caredig CYP Music Ltd. Hawlfraint © CYP Music Ltd.

*I Eat My Peas with Honey:* Dienw.

*Dw i'n Hoffi* Mair Elwyn Hawlfraint © Atebol 2019

*Pry Pric yn y Picnic* – Hawlfraint © Gwyneth Glyn – Trwy ganiatâd caredig Gomer.

*Frank the Friendly Alien* Hawlfraint © 2017 Kenn Nesbitt. Cedwir pob hawl. Wedi'i adargraffu trwy ganiatâd yr awdur.

Mae BookTrust wedi gweithredu yn ddiffuant gan wneud pob ymdrech i ganfod deiliaid hawlfreintiau, cael eu caniatâd a sicrhau bod pob cydnabyddiaeth yn gywir. Ymddiheurwn am unrhyw esgeulustod anfwriadol, a chânt eu cywiro cyn gynted â phosibl pe rhoddir gwybod inni'n ysgrifenedig.

*Deg yn Cysgu'n Iach:* Song words reproduced by kind permission of Child's Play (International) Ltd. © 1979 Child's Play.

*Ten Fat Sausages:* Song words reproduced from the album *One Finger, One Thumb* (SSCD002) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

*Miss Polly Had a Dolly:* Song words reproduced from the album *Humpty Dumpty* (PTCD260) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

*Grand Old Duke of York:* Song words reproduced from the album *Humpty Dumpty* (PTCD260) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

*Fuoch Chi Eiroed yn Morio?:* Traditional.

*Yellow Butter, Purple Jelly:* Used by permission of Gina Maccoby, Literary agent. Copyright © 1981 by Mary Ann Hoberman.

*Pedoli Pedoli:* Traditional.

*The Seasons:* © Mother Goose.

*A Sailor Went to Sea:* Song words reproduced from the album *Row, Row, Row Your Boat* (SSCD17) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

*Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed:* Lyrics to *Head, Shoulders, Knees and Toes* reproduced by kind permission of Babyboomboom Ltd. Please visit babyboomboom.com for more bilingual Welsh songs.

*Migldi Magldi:* Traditional.

*Head, Shoulders, Knees and Toes:* Song words reproduced from the album *This Little Piggy* (STNCD02) by kind permission of CYP Music Ltd. © CYP Music Ltd.

*I Eat My Peas with Honey:* Anonymous.

*Dw i'n Hoffi:* Mair Elwyn Copyright © Atebol 2019

*Pry Pric yn y Picnic – Hawlfraint* © Gwyneth Glyn – By kind permission of Gomer.

*Frank the Friendly Alien* copyright © 2017 Kenn Nesbitt. All rights reserved. Reprinted by permission of the author.

BookTrust has acted in good faith with every effort to trace copyright holders, to obtain permission from them and to ensure that all credits are correct. We apologise for any inadvertent omissions, which will be corrected as soon as possible if notification is given to us in writing.


Darluniau gan Matt Joyce
Illustrations by Matt Joyce


Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**


**booktrust.org.uk/cymru**